

## CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS.

### BETWS YN RHOS AND LLANELIAN YN RHOS COMMUNITY COUNCIL

CLERC : Mel Jones, 2 Lon Hafan Abergele LL22 8QJ  
Ffon : 07833 548435 e-bost : [clerc@betwsallanelian.org.uk](mailto:clerc@betwsallanelian.org.uk)

### **COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YM MHAFILIWN CHWARAEON, BETWS YN RHOS AM 7.30 y.h. NOS LUN 15 deg Gorffennaf 2024.**

#### **1. CROESO**

Gan fod y Cadeirydd, y Cynghorydd John EVANS a Cynghorydd Glana Humphrey yn absennol cytunodd Cynghorydd Irwedd Griffiths gadeirio y cyfarfod. Croesodd pawb i'r cyfarfod a rhoddwyd diweddariad fod Cynghorydd John Roberts yn yr Ysbyty. Rhoddodd Cynghorydd Ifor Lloyd cydymdeiladau y cyfarfod i'r Clerc, Mel Jones, ar ôl marwolaeth ei dad yn nghyfraith – John Lloyd Jones.

#### **2. YN BRESENNOL**

Y Cynghorion Irwedd GRIFFITHS, Gwenda DAVIES, Goronwy R. WILLIAMS, Hefin WILLIAMS, Bryn Jones, D. Gwyn Jones, a Cynghorydd y Sir - Ifor G. Lloyd, Clerc – Mel Jones

#### **3. YMDDIHEURIADAU**

Cynghorion John EVANS, Glana Humphrey, Gethin Owen, John D. Roberts.

#### **4. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Atgoffer yr aelodau eu bod i ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddi-ddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny.

Mae'r Cynghorydd Ifor LLOYD yn nawr yn Gadeirydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau yn ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau.

Nid oedd datganiad o ddi-ddordeb gan unrhyw un a oedd yn bresennol.

## 5. COFNODION

Cytunwyd i gadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 3ydd Mehefin 2024 (Cynnig - Cynghorydd Hefin Williams ac eilwyd gan y Cynghorydd D. Gwyn Jones)

## 6. MATERION YN CODI

Fe arwyddwyd Cynghorion Goronwy R. Williams a Bryn Jones y ffurflenni yn tynnu yn ol o dderbyn cydnabyddiaeth ariannol.

## 7. CYLLID

Cafwyd Adroddiad Misol am y cyfnod dod i ben 20fed Mehefin 2024.

Nododd yr aelodau y sefyllfa ariannol a'r adroddiadau banc fel a restrir isod:-

**Cyfrif Cymunedol** = £5,710.50 (Dwyn Ymlaen)

Arian i Mewn = DIM

Arian Allan = £5.40 (Costau Banc - DR)

= £570.12 (Cyflog y Clerc – SO)

= £142.40 (Taliad i'r HMRC -SO)

= £38.34 (BT-Tal Misol WiFi-arferol-TAL

=£154.00 (SLCC- –Aelodaeth am flwyddyn.

**Cyfrif Cymunedol** = £4,800.24 (Cludwyd Ymlaen)

**Cyfrif Busnes** = £5,668.48 (Dwyn Ymlaen)

Arian Allan = £0.00

Arian i Mewn = £29.53 (Llog y Banc)

**Cyfrif Busnes** = £5,698.01 (Cludwyd Ymlaen)

**Cyfanswm** = **£10,498.25 (Cludwyd Ymlaen).**

Cytunodd pawb a'r adroddiadau yma.

Yn dilyn yr Archwiliad Mewnol mae'n rhaid yn awr gael cytundeb y Cyngor i dalu pob anfoneb

Mae'r anfonebau a restrir isod angen ei talu:

£38.34 – BT – Anfoneb misol WiFi.

Cytunodd pawb i'r Clerc dalu yr anfoneb yma.

## 8. GOHEBIAETH

### Derbynwyd

Ebyst arferol oddi wrth Un Llais Cymru, Gwasanaeth Cyhoeddus Gweithredol ayyb gyda'r rhai perthnasol yn cael ei gyrru ymlaen i'r Cynghorwyr. Mae rhain ar gael gan y Clerc

### Anfonwyd

1. Sylwadau ar geisiadau cynllunio i Adran Gynllunio CBSC
2. Llythyrau ac ebyst i'r Cynghorwyr yn dilyn negesuon, llythyrau ac ebyst yn dod i law.

## 9. GRANTIAU

### a. Ceisiadau i'r Cyngor

Dim ceisiadau yn y cyfnod yma.

### b. Ceisiadau gan y Cyngor

- a. Mae CVSC yn awr yn rhoi cymorth i'r Cyngor chwilio am grantiau i gefnogi projectau o fewn y gymuned.

## 10. CYNLLUNIO - <http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer>

1. Cyfeirnod 0/51728

Ymgeisydd: Mr Mark Blissitt

Cynllun: Codi Annedd a thai allan

Safle: Aelwyd Uchaf Cill Llidiart Road Betws yn Rhos LL22 8A

Mae'r cynlluniad yn cael ei drafod gan Cyngor y Sir. Mae mwy o wybodaeth wedi cael ei godi fod llwybr hanesyddol era Owain Glyndwr yn lleoliad y safle. Y Clerc i ysgrifennu i Adran Cynllunio y Cyngor.

**2. Cyfeirnod: 0/51705**

**Ymgeisydd: David Learmount**

Cynllun: Addasu'r heulfan bresennol gyda tho wedi'i insiwleiddio a portsh newydd i greu canolbwynt i ymwelwyr.

8NT Safle: Tan Y Bryn Tan Y Bryn Bach Road Dolwen Betws Yn Rhos LL22

Mae'r cynlluniad yn cael ei drafod gan Cyngor y Sir.

**3. Cyfeirnod: 0/51670**

**Ymgeisydd: Mr P Ryan**

newydd Cynllun: Estyniad ochr unllawr arfaethedig i ffurfio ystafell gyfleustodau

8YR Safle: Ty'n Y Coed, Cilgwyn Road, Llanelian Yn Rhos, Colwyn Bay LL29

**Mae Cyngor y Sir wedi caniatáu y cynllun**

**4. Cyfeirnod: 0/51667  
Jones**

**Ymgeisydd: Rhys and Rosie**

Cynllun: Estyniad deulawr i'r ochr ac estyniad unllawr i'r cefn, ynghyd â rhai addasiadau mewnol.

Safle: Pencraig Pencraig Road Dolwen Betws Yn Rhos LL22 8NT

**Mae Cyngor y Sir wedi gwrthod y cynllun.**

**5. Cyfeirnod: 0/51618**

**Ymgeisydd: Nina Cole**

Cynllun: Cadw strwythurau'r pafiliwn am gyfnod dros dro o hyd at dair blynedd

Safle: White Lion Inn Llanelian Road Llanelian Yn Rhos Colwyn Bay LL29 8YA

Mae'r cynllun yn cael ei drafod gan Cyngor y Sir ac roedd dim trafodaeth ychwanegol.

**6. Cyfeirnod: 0/51608**

**Ymgeisydd: Mrs N Williams**

Cynllun: Cynnig ar gyfer estyniad anecs

Safle: Tan Y Coed Croes Engan Road Trofarth Betws Yn Rhos

**Mae Cyngor y Sir wedi caniatáu y cynllun**

**11. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL**

Mae'r Archwilaid Blynyddol am y flwyddyn yn gorffen 31ain o Fawrth 2024 yn mynd i fod yn 'Archwiliad Llawn'. Mae'r gwaith eisio ei gwblhau erbyn mis Medi 2024.

Mae'r Clerc yn gweithio gyda Tom Jones i gwblhau y gwaith.

**12. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD**

Mae Cynghorydd Ifor Lloyd, y Clerc a Clerc Llanfair T.H. wedi cael cyfarfod Zoom gyda BTynglyn a llinellau fiber i ardaloedd Dolwen a Betws yn Rhos . Roddent wedi gofyn oedd posibilrwydd i estyn yr ardal fydd yn medru cael y gwasanaeth. Nid yw hyn yn posib ar hyn o bryd. Mae yn fenter dda ac am ddim i presylwyr. Mae BT yn edrych am ddal cyfarfodydd yn lleol i rhannu gwybodaeth.

**13. CYNNAL A CHADW ADNODDAU ARDAL Y CYNGOR CYMUNEDOL**

**a. Caeau Chwaraeon Plant -Betws yn Rhos/Llanelian.**

Mae'r Clerc wedi bod yn trafod gwahanol drofeydd gyda swyddogion Cymunedau, Ymgysylltu a Chyfranogiad – Conwy a Sir Ddinbych er mwyn casglu y gwybodaeth angenrheidiol a chostau ar gyfer chwilio am ffynonhellau ariannol fel grant o Fferm Wynt Gwynt y Mor, tuag at adnewyddu caeau chwarae plant Betws yn Rhos a Llanelian.

Ar y 6/6/24 cafodd y Clerc cyfarfod gyda agent 'Creative Play' yn Cae Chwarae Betws yn Rhos. Dangoswyd y cynlluniau oedd Creative Play wedi ei baratoi. Y gost i cael offer newydd – swing fasged, canolfan gweithgaredd hefo matiau glaswellt yw £17,150.00. Roedd cytundeb fuasai yr offer sydd yn y cae yn cael ei cadw ac ei adnewyddu. Y Clerc yn mynd i cael pris newydd gan G.L.Jones i adnewyddu yr offer. Y Clerc yn mynd i gysylltu gyda Cyngor y Sir i edrych am gael cefnogaeth ariannol ac i siarad hefo CVSC ynglyn a grantiau ar gael.

b. **Diffibrilwyr.**

Ar 19/6/24 cyfarfododd Cyngorydd John Roberts ar Clerc hefo Ifan Rowlands (Rheolydd Goleuadau Strydoedd Cyngor y Sir) yn safle y bont newydd yn Dawn lleoliad diffibrilwr newydd. Mae yn bosib gosod diffibrilwyr ar bostyn fuasai Cyngor Conwy yn ei osod. Mae post trydan gerllaw a fuasai rhaid i Scottish Power rhedeg llinell trydan i'r postyn. Mae amcan gost yn dal ei ddisgwyl gan y Cyngor Sir. Fydd rhaid prynnu diffibrilwr newydd.

Nid yw y diffibrilwyr wedi cael ei trosglwyddo i gyfrif newydd y Cyngor er bod y Clerc wedi gofyn lawer gwaith.

c. **Yr Hwb**

Mae angen gwirfoddolwyr iw gynnal, a bydd ar agor o 9:00yb hyd at 12:00 yh bob bore Dydd Mawrth yn y Pafiliwn Chwaraeon yn Betws yn Rhos.

d. **Gwlau blodau**

Mae Cyngorydd Gethin OWEN yn ymdrechu i roid y gwllau blodau ar ochr y ffordd B5381 wrth arwydd Betws yn Rhos ac yn groesffordd Rhwng y Ddwyffordd. Mae planhigion ar gael gan y Cyngor Sir.

Mae pryder ynglyn a dim planhigion yn potiau o gwmpas pentref Betws yn Rhos ac chwyn/glaswellt o gwmpas y meinciau yn Ffordd Abergele heb gael ei dorri.

Mae'r Clerc wedi cysylltu a Adran Gerddi a Adran AFC Cyngor Conwy ond heb gael ateb. Penderfynwyd trio cael rhywun i wneud y gwaith i dacluso o gwmpas y meinciau a ail blannu y potiau.

e. **Toiledau yn Betws yn Rhos.**

Mae'r Clerc wedi ysgrifennu i Cyngor Conwy ynglun a'r toiledau di-dddefnydd yn Betws yn Rhos ac wedi siarad hefo Ceri Owen o'r Cyngor Sir.

Mae'r toiledau yn Betws wedi ei cau ers 2008 ac ei barn oedd fuasai yn amhosib adnewyddu yr adeilad.

Fydd toiledau newydd ar dalcen y Pafiliwn Chwaraeon yn gorfod cael ei adeiladu. Fuasai rhaid i'r Pwyllgor Chwaraeon ymgeisio am y cynllun. Mae'r Cyngor Cymuned yn fodlon i gefnogi y Pwyllgor Chwaraeon.

f. **Materion arall**

Mae'r Clerc wedi ysgrifennu i Cyngor y Sir ynglyn am led y rhwystr (barrier) ar ffin y llwybyr cyhoeddus a'r ffordd fawr yng nghanol pentref Betws yn Rhos a hefyd y 'gazebo' dros yr afon yn Llais Afon sydd yn debyg i amharu hefo ochr yr afon. Mae Cyngor y Sir wedi ateb ac yn cael ymchwil o dan cyfeirnod 112632. Mae asesiad fod y gwaith yn ddi-frys.

**14. Y GYLLIDEB FLYNYDDOL / PRAESEPT**

Mae'r Cyngor Sir wedi cytuno y praesept o £13,002.00

Fydd £4,334.00 yn cael ei dalu i'r Banc ar 19/4/24, 16/8/24 a 13/12/84

**15. FFERMYDD GWYNT TIROL AC ALLTRAETH AWEL Y MOR/GWYNT Y MOR/MONA**

Mae'r pwnc yma yn cael ei drafod ym mhob cyfarfod o'r Cyngor. Bydd y Cyngor yn cadw llygaid craff ar unrhyw gais a ddaw i fyny.

Gweler y linciau yma am wybodaeth i'r Ffermydd gwynt Alltraeth:

[Overview](#)

[About us](#) [About the Project](#) [What the Project will look like](#) [Processes and Next Steps](#)

[Our work so far](#) [Interactions with other marine users](#)

[Information Hub](#) [Visualisations of the windfarm](#) [Interactive map.](#)

Mae llythyr wedi cael ei dderbyn gan Fferm Wynt Mona hefo ei cynlluniau.

Roedd Cynghorydd Ifor Lloyd yn ymwybodol a fuasai y llinellau o dan ddear ac oes fyddai unrhyw newid yn y cynlluniadau fuasai rhaid rhoi cais newydd i fewn. Fuasai y Cyngor Cymuned ynb cael gwyt am hyn.

#### **16. CANOLFAN GYMUNEDOL LLANELIAN YN RHOS**

Mae yr eitem yma ar yr agenda er mwyn cadw cofnod o sut mae y gwaith yn dod yn ei flaen, ac er mwyn rhoi cefnogaeth pan y bydd angen.

Mae'r gwaith yn brysur fynd yn ei flaen.

Bydd cyfarfodydd y Cyngor yn cael ei cynnal ym Mhafiliwn Chwaraeon Betws yn Rhos nes bod yr adeilad newydd yn Llanelian wedi ei orffen.

Mae'r gwaith gan BT i osod WiFi yn mynd ymlaen ac mae eisio gosod llinell newydd i'r adeilad. Mae BT yn cymeryd oesoedd i wnedd y gwaith.

Mae'r Clerc wedi gofyn i CCTV Services fynd i Llanelian i roid cost i osod system teledu ayyb yn y Ganolfan yn debyg i'r system yn ei le yn y Pafiliwn Chwaraeon yn Betws yn Rhos.

#### **17. Y GADLAS**

Dim awgrymiadau am erthygl.

#### **18. UNRHYW FATER ARALL**

Cododd Cynghorydd Irwedd Griffiths fater am dro cul ar y ffordd rhwng Nant y Cohl a Bryn Derwen sydd yn achosi difrod i'r tro ac i lorriau sydd yn cludo nwyddau i'r ardal. Y Clerc i ysgrifennu i adran AFC yn y Cyngor Sir.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe ddaeth y cyfarfod i ben am 9.20 yh.



CADEIRYDD .....John EVANS

CLERC..... Mel Jones

DYDDIAD: 2 fed Medi 2024